

# Gwerthusiad o gynllun peilot y Llys Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd yng Nghymru

## Crynodeb Gweithredol

Melissa Meindl, Meghan Hosch, David Westlake

Awst 2022



## CASCADE Infrastructure Partnership



Our expertise brings together an exceptional partnership. CASCADE is the leading centre for evaluative research in children's social care in the UK and sits within the School of Social Sciences (SOCSI), a leading centre of excellence in social sciences and education research with expertise in quantitative methods. The Centre for Trials Research (CTR) is an acknowledged national leader for trials and related methods, the School of Psychology was ranked 2<sup>nd</sup> for research quality in the most recent Research Excellence Framework and SAIL provides world-class data linkage. Together we believe we can create a step-change in the quality and use of children's social care research that is unparalleled in the UK. Specifically, we can deliver high quality trials and evaluations; link data to understand long-term outcomes and involve service users (our public) in all elements of our research. Our intention is that these three strands will interact to generate an unrivalled quality of research.

---

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Mae Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) yn fath arall o achosion gofal, ac yn ddull addawol o ddatrys problemau i helpu rhieni i oresgyn problemau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae potensial Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol wedi'i gydnabod yng Nghymru, lle mae pryderon ynghylch cynnydd yn nifer y plant mewn gofal yn arbennig o ddifrifol. Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot dwy flynedd o Lys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn ardaloedd Caerdydd a Bro Morgannwg, i'w gyflwyno o Lys Teulu Caerdydd. Mae'r Ganolfan Arloesedd Cyfiawnder (CJI) yn darparu cymorth gweithredol i'r cynllun peilot ac wedi comisiynu'r gwerthusiad hwn fel ffordd o ddeall a yw'n llwyddo yn ei nodau a sut y mae'n llwyddiannus. Dechreuodd y gwerthusiad ym mis Ionawr 2022 a bydd yn dod i ben ym mis Ionawr 2024.

Yr adroddiad interim hwn yw'r allbwn cyntaf o'r gwerthusiad. Mae'n canolbwyntio ar gamau cynnar y cynllun peilot, gan archwilio'r cyfnod sefydlu, ac yn olrhain yn gryno trwygylch teuluoedd yn ystod ei gyfnod sefydlu. Cyflwynir trosolwg o'r arferion presennol ar ffurf adolygiad polisi, ac mae'r adroddiad hefyd yn adolygu gwaith ymchwil diweddar yn y maes hwn, gan dynnu sylw at rai canfyddiadau allweddol sy'n berthnasol i gynllun peilot Cymru.

## Adran 1: Adolygiad ymchwil a llenyddiaeth

Mae proffil Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae ymchwilwyr ledled y DU yn parhau i archwilio ei botensial a'i effeithiolrwydd. Nodwyd pedwar prif brosiect ymchwil sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ar Lysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn y DU mewn adolygiad ymchwil. Ariennir pob prosiect gan raglen Cefnogi Teuluoedd; Buddsoddi mewn Ymarfer yr Adran Addysg, drwy What Works for Children's Social Care. Ar draws y prosiectau, mae ystod o fethodolegau yn cael eu defnyddio i fesur effaith Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, cofnodi sut mae'n cael ei gyflwyno a'i brofi, a phrofi iteriadau newydd o'r model. Bydd gan ganfyddiadau'r prosiectau hyn oblygiadau pwysig.

Nododd chwiliadau llenyddiaeth bedwar ar hugain o gyhoeddiadau diweddar a pherthnasol. Nodwyd sawl thema allweddol o'r rhain, a thrafodir pedair ohonynt yn fanylach ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Yn fyr, y pedair thema a nodwyd oedd:

**Effeithiolrwydd** – Dangosodd gwerthusiadau fod teuluoedd sy'n cael Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn llawer mwy tebygol o gadw gofal o'u plant a rhoi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau o'u cymharu â'r rhai mewn achosion safonol. Gwelwyd bod gan y canlyniadau hyn hirhoedledd gwell nag

---

achosion safonol hefyd. Priodolwyd canlyniadau llwyddiannus yn aml i ffordd gydweithredol Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol o weithio, a rhieni'n gwerthfawrogi eu hasiantaeth mewn nodau a chynlluniau a gynhyrchwyd ar y cyd, yn ogystal â gonestrwydd a pharch gan weithwyr proffesiynol, yn enwedig barnwyr.

**Cost** – Amcangyfrifodd modelau amcangyfrifol o gostau ac arbedion Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol y gall awdurdodau lleol a gwasanaethau cyfreithiol arbed costau sylweddol drwy osgoi achosion gofal rheolaidd a lleoliadau gofal, llai o alwadau ar gyfer gwasanaethau brys a gwasanaethau heddlu ar gyfer materion yn ymwneud â chamdddefnyddio sylweddau, a chostau cyfreithiol is.

**Covid-19** – Dangosodd yr adolygiad llenyddiaeth fod llawer i'w ddysgu o hyd am unrhyw oblygiadau cadarnhaol a negyddol i Lys Teulu Cyffuriau ac Alcohol o ganlyniad i'r pandemig. Lle trafodwyd Covid-19, nodwyd bod cyfyngiadau Covid-19 yn effeithio ar allu safleoedd Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol i weithredu fel arfer i ddechrau, yn enwedig o ran y ffordd y cynhaliwyd gwrandawladau, a diffyg staff ac adnoddau gwasanaethau cymunedol. Fodd bynnag, mae rhai newidiadau wedi'u dwyn ymlaen i weithrediad Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ar ôl COVID-19 gan y credwyd eu bod yn gadarnhaol.

**Argymhellion** – Gwnaed argymhellion cyson drwy gydol y llenyddiaeth, yn enwedig ar gyfer mwy o gymorth tai, cymorth ar ôl yr achosion, a defnyddio cymorth gan gymheiriaid.

## Adran 2: Adolygiad o bolisïau

Ar hyn o bryd, mae 16 o dimau Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn gweithredu mewn 24 llys, gan wasanaethu 36 awdurdod lleol. Mae'r holl safleoedd Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol cyfredol yn cydymffurfio â model Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol craidd sefydledig a ddatblygwyd yn ystod cynllun peilot Llundain. Fodd bynnag, bu llawer o iteriadau o'r model dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori fel rhan o'r gwerthusiad hwn i archwilio sut a pham mae Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol wedi esblygu ac wedi'i addasu ar gyfer gwahanol gyd-destunau ers gweithredu a gwerthuso model Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Llundain. Cymerodd pob un o'r 16 safle Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol cyfredol ran, gan ymgysylltu â'r tîm gwerthuso naill ai trwy ebost neu drwy gynhadledd fideo. Ni nododd tri Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol unrhyw newidiadau i'r model Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol craidd. Nododd y 13 Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol arall addasiadau a oedd yn disgyn i raddau helaeth i dair thema gyffredinol a drafodwyd yn fanylach ym mhrif gorff yr adroddiad hwn:

**Cynnig cymorth estynedig** – Roedd rhai Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol wedi ehangu eu tîm neu wasanaeth gydag arbenigeddau ychwanegol, yn enwedig o ran cymorth cam-drin domestig a chymorth iechyd meddwl. Yn dilyn argymhellion gwerthusiadau blaenorol, cynigiodd sawl Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol gymorth ar ôl yr achosion er bod natur a maint hyn yn amrywio. Ystyriwyd

---

bod cynlluniau mentora cymheiriaid yn llwyddiannus gan dimau Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol, gyda llawer yn cynnig y gwasanaeth hwn neu'n anelu ato yn y dyfodol.

**Cyllid** – Mae gan gyllid rôl allweddol i'w chwarae o ran sut mae (ac a yw) Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol wedi datblygu neu ehangu. Mae rhai Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol wedi ehangu fwyfwy oherwydd cyllid ychwanegol. Mae eraill wedi ailstrwythuro rheolwyr a chau gwasanaethau, neu roeddent yn gallu parhau i gefnogi un awdurdod lleol pan ddaeth cyllid i ben yn unig (pan oeddent wedi cefnogi nifer yn flaenorol yn ystod eu cyfnod peilot). Lleisiodd sawl Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol bryderon am gyllid yn y dyfodol ac esbonio sut mae ansefydlogrwydd mewn cyllid wedi achosi problemau recriwtio, wedi creu ansefydlogrwydd yn y tîm, ac wedi cyfyngu ar y gwasanaeth y maent yn gallu ei ddarparu.

**Perthynas ag awdurdodau lleol** – Mae pob Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn annibynnol o'r awdurdod lleol, ond yn ymarferol maent yn amrywio o ran pa mor agos y maent yn gweithio gydag awdurdodau lleol, a pha mor annibynnol y maent yn teimlo. Er enghraifft, mae rhai Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol ar wahân (dim cyllid a rennir, data, neu safleoedd gweithio gyda'u hawdurdod(au) lleol), tra bod gan Lysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol eraill gysylltiadau agosach (rhannu adnoddau a data), ac mae rhai yn eistedd o fewn yr awdurdod lleol neu'n ehangu gwasanaeth presennol o fewn yr awdurdod lleol.

## Adran 3: Cyflwyno Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru

Er mwyn archwilio a yw cyflwyno Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru yn digwydd ar yr un lefelau ac yn cael ei alluogi a'i atal gan ffactorau tebyg a nodwyd yn flaenorol, cynhaliwyd cyfuniad o gyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda 10 rhanddeiliad proffesiynol rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2022. Roedd hyn yn cynnwys aelodau o dîm Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, gweithwyr cymdeithasol awdurdod lleol, ymarferwyr cyfreithiol, ymarferwyr o asiantaethau partner, ac ymarferwyr sy'n ymwneud â chefnogi'r gwaith o gyflwyno safle Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro.

Y pedair prif lefel o gyflwyno Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol a nodwyd yng Nghymru yw:

1. **Lefel genedlaethol/polisi** – Prif alluogwyr cyflwyno Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru ar y lefel hon oedd y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar y lefel hon.
2. **Lefel awdurdod lleol** – Nodwyd bod argaeledd gwasanaethau yn alluogwr allweddol ac yn rhwystr ar lefel yr awdurdod lleol.

- 
- Lefel Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol** – Adleisiwyd yr hyfforddiant a'r cyfleoedd i dîm Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ac asiantaethau partner arsylwi safleoedd Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol presennol wrth eu cyflwyno ar draws yr holl gyfweiliadau a grwpiau ffocws fel galluogwr allweddol. Nodwyd hefyd y rhwystrau cyflwyno sy'n ymwneud â hyfforddiant.
  - Lefel unigol** – Ni nodwyd y lefel hon mewn astudiaethau eraill yn y gorffennol. Mae'n cyfeirio at gyflwyno ar lefel unigol (defnyddiwr gwasanaeth ac ymarferydd), ac fe'i hamlygwyd fel galluogwr pwysig yn y cynllun peilot yng Nghymru. Ystyriwyd bod addasrwydd ymarferwyr unigol yn alluogwr allweddol ar y lefel hon.

Trwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a oedd yn ymwneud â gweithredu Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro, cafwyd mewnwelediadau newydd o ran gweithredu yng nghamau cynnar y cynllun peilot. Yn seiliedig ar y rhain, nod yr argymhellion interim canlynol yw cefnogi'r gwaith o gyflwyno Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn ehangach yng Nghymru:

**Argymhelliad 1: Trefnu bod hyfforddiant ar gael yn ehangach** Sicrhau bod yr un hyfforddiant dwys, tri diwrnod (a ddarperir i dîm y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol gan CJI), ar gael i'r holl asiantaethau/gwasanaethau partner allweddol, a phwysleisio pwysigrwydd mynd i hyfforddiant ar fodel Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn ymwybodol o brosesau ac egwyddorion y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, ac yn cynyddu'r nifer o bobl fydd yn cefnogi'r broses ar lefel yr awdurdod lleol ac yn unigol, pan fydd ymarferwyr yn rhoi adborth ar eu gwybodaeth am sut mae Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn gweithio a'r hyn y gall ei gyflawni i gydweithwyr a theuluoedd.

**Argymhelliad 2: Rhoi hyfforddiant dilynol** Darparu ail sesiwn hyfforddiant neu 'sesiwn gloywi' ar ôl i dîm y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ddechrau gweithio gyda theuluoedd mewn Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol. Byddai hyn yn rhoi cyfle ychwanegol i ymarferwyr fynd i hyfforddiant ar Lysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol os nad oeddent yn gallu mynd yn y lle cyntaf, ac mae'n caniatáu i dîm y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol atgyfnerthu ymhellach eu gwybodaeth am y model yng nghyd-destun cymhwyso'r prosesau a'r egwyddorion, ac ar ôl nodi meysydd sy'n gofyn am arweiniad neu gymorth pellach.

**Argymhelliad 3: Gwella'r ddogfennaeth ategol** Diweddarau'r dogfennau ategol sydd ar gael ar gyfer Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, i bwysleisio ymhellach sut mae plant yn rhan o'r model, a sut mae eu diogelwch yn cael ei flaenoriaethu.

**Argymhelliad 4: Sicrhau cyllid a safoni cymorth** Parhau i sicrhau bod cyllid ar gael i bob safle Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol newydd gael yr un lefel o gymorth gweithredu dwys a chymorth ar ôl sefydlu a dderbynnir gan Gaerdydd a'r Fro.

---

## Adran 4: Sut mae Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro'n dod yn ei flaen

Lansiodd Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro ei raglen beilot ddwy flynedd ym mis Rhagfyr 2021. Sefydlwyd tîm craidd Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2021, ac mae wedi'i leoli yn Neuadd y Ddinas Caerdydd. Mae Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro yn gweithredu o Lys Teulu Caerdydd, ac mae ganddo dri barnwr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig. Mae'r llys yn cael ei oruchwylio gan un prif farnwr sy'n clywed achosion y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, a dau farnwr arall a fydd ar gael i weithio pan fydd eraill ar eu gwyliau neu'n absennol oherwydd salwch.

Dechreuodd y wefan glywed achosion Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ddiwedd mis Rhagfyr 2021, gyda'r rhiant cyntaf yn cofrestru i Lys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ym mis Ionawr 2022. Erbyn mis Awst 2022, cafwyd wyth achos a oedd yn ymwneud ag 11 rhiant a naw o blant yn Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro. Mae un achos wedi dod i ben ac ar hyn o bryd mae chwe achos yn y 'Treial ar gyfer Newid'. Barnwyd bod un achos yn 'anaddas' ac nid yw wedi'i gynnwys yn y data canlynol.

Yn seiliedig ar nifer yr achosion ar ddechrau mis Awst 2022, tua wyth mis ers i'r cynllun peilot ddechrau, mae Caerdydd a'r Fro ychydig y tu ôl i'w targed o 15 achos y flwyddyn yn ystod eu cynllun peilot.

Roedd difrifoldeb camddefnyddio alcohol rhieni a farnwyd yn glinigol ar ddechrau'r achos yn fwyaf cyffredin yn 'ganolig' (60% o rieni), ac roedd difrifoldeb camddefnyddio cyffuriau rhieni a farnwyd yn glinigol ar ddechrau'r achos gan amlaf yn ganolig i uchel (50% a 40% yn y drefn honno).

Nodweddion nodedig eraill teuluoedd a oedd yn rhan o'r cynllun peilot oedd afiechyd meddwl, cam-drin domestig a threfniadau byw ansefydlog. Roedd gan 30 y cant o rieni ddiagnosis iechyd meddwl presennol, ac roedd gan 70% o rieni naill ai brofiad blaenorol neu gyfredol o gam-drin domestig. Ar ddechrau'r achosion, roedd 50% o rieni yn byw naill ai mewn tai â chymorth, hostel, neu loches, ac roedd y rhan fwyaf o blant naill ai mewn gofal maeth (50%), neu gydag aelod o'r teulu nad oedd yn rhiant iddynt (37.5%).

## Adran 5: Y camau nesaf

Ym mis Awst 2022, mae 11 mis ar ôl yng Ngham Dau y gwerthusiad o'r cynllun peilot Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru. Bydd gweddill y cam hwn yn canolbwyntio ar gynnal cyfweiliadau ac arsylwadau gyda 15 o deuluoedd mewn Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol a rhanddeiliaid proffesiynol, i archwilio eu profiadau, eu canfyddiadau a'u hagweddau. Bydd data'n

---

cael ei gasglu a'i ddadansoddi mewn cylchoedd ailadroddol a'i ddefnyddio i brofi, i ddatblygu, ac i fireinio theorï'r rhaglen flaenorol ymhellach ar sut, i bwy ac i ba amgylchiadau y mae Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn gweithio, gan ganolbwyntio ar y cyd-destun yng Nghymru.

Bydd cam tri yn dechrau ym mis Awst 2023 a bydd yn cynnwys cyfweiliadau dilynol gyda theuluoedd astudiaeth achos a rhanddeiliaid allweddol, a dadansoddiad data meintiol a gafwyd o safle Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro. Bydd y data o'r safle peilot yn cael ei gymharu ag un neu fwy o safleoedd Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn Lloegr mewn tri phrif faes: (1) proffil, (2) anghenion, a (3) canlyniadau.

## Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi canolbwyntio ar gamau cynnar peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro, sydd ers mis Awst 2022, wedi bod yn rhedeg ers tua wyth mis. Yn ôl pob golwg, mae'r cyfnod sefydlu ar gyfer cynllun peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro wedi bod yn llwyddiannus i raddau helaeth, er iddo gael ei wneud mewn cyfnod o aflonyddwch sylweddol oherwydd effaith barhaus Covid-19. Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth i nifer cynyddol o deuluoedd yng Nghymru, ac mae eu profiadau yn cyfrannu at y sylfaen wybodaeth ar Lysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn ehangach.





**CASCADE**

## **Authors and Contributors**

Melissa Meindl, Meghan Hosch and David Westlake

Children's Social Care Research and Development Centre (CASCADE),  
Cardiff University, School of Social Sciences (SOCSI), Cardiff University

### **For further information please contact:**

CASCADE: Children's Social Care Research and Development Centre

Cardiff University  
sbarc | spark, Maindy Rd  
Cardiff  
CF24 4HQ3

[CASCADE@cardiff.ac.uk](mailto:CASCADE@cardiff.ac.uk)